**Cyfarfod ar y Cyd o'r Grŵp Trawsbleidiol ar Addysg Bellach a Sgiliau a'r Grŵp Trawsbleidiol ar Brifysgolion**

**Dydd Mercher 12 Gorffenaf 2023 / 12.30 – 13.30 (mewn person ac ar lein)**

## Cofnodion

Croesawodd Hefin David AS (Cadeirydd) gwesteion i'r cyfarfod.

## 1. CCB - Grŵp Trawsbleidiol ar Addysg Bellach a Sgiliau

- Etholwyd John Griffiths AS fel Cadeirydd y Grŵp.
- Etholwyd ColegauCymru fel ysgrifenydd y Grŵp.

## 2. Prifysgolion Cymru

- Rhoddodd yr Athro Maria Hinfelaar ddiweddariad ar farn Prifysgolion Cymru ar adroddiad Hefin David AS.
- Nodwyd y dylid croesawu'r cydweithio rhwng AB ac AU, ac mae CTER yn cyflwyno cyfleoedd ar gyfer gweithio agosach, clyfar, ac adeiladu llwybrau cryf, llyfnach drwy ysgolion, colegau AB a Chweched Dosbarth, i Addysg Uwch.

## 3. ColegauCymru

- Rhoddodd Mark Jones ddiweddariad ar ran ColegauCymru, a nododd fod y comisiwn yn cyflwyno cyfleoedd newydd.
- Nodwyd bod yr argymhellion yn adroddiad Hefin David MS yn glir ac yn ddiamwys, er bod rhai meysydd lle mae angen cynnydd, ac mae angen inni edrych ymlaen, dadbacio, asesu pam nad yw newidiadau wedi bod yn digwydd yn y sector a gweithio i ddileu rhwystrau.

## 4. Hefin David AS

- Cyflwynodd Hefin David AS ei adroddiad "Pontio i Fyd Gwaith".

## 5. Trafodaeth

- Awgrymodd Kathryn Robson (Addysg Oedolion Cymru) y gallai'r adroddiad fod wedi cydnabod mwy am ddysgu oedolion yn y gymuned, o ran ei bwysigrwydd o ran cefnogi'r economi a'r agenda sgiliau. Mae marchnad o bobl ledled Cymru sy'n barod i uwchsgilio.

- Nododd yr Athro Cara Aitcheson fod gwaith ar brentisiaethau gradd wedi bod yn llwyddiannus, ond bod mwy o waith i'w wneud ar y pwnc hwn, a chyfle i gydweithio.
- Nododd Hefin David MA waith da MET Caerdydd a Phrifysgol De Cymru, a thynnodd sylw at bwysigrwydd aliniad fertigol.
- Nododd Elaine Carlile (Cymwysterau Cymru) y byddai cyfleoedd i gydweithio'n agosach rhwng ysgolion ac Addysg Bellach.
- Nododd Dafydd Trystan (Coleg Cymraeg Cenedlaethol) ei optimistiaeth am y bartneriaeth rhwng AB ac AU. Awgrymwyd bod cyllid ysgolion a cholegau yn gystadleuol iawn, ac mae hon yn her gynyddol.
- Cododd yr Athro Cara Aitcheson fater ffioedd dysgu, a’r heriau sy’n wynebu prifysgolion o ran cyllid.
- Awgrymodd Hefin David AS nad oedd y ddibyniaeth ar fyfyrwyr rhyngwladol yn ymateb tymor hir.
- Awgrymodd Lisa Childs (NUS) fod newidiadau yn y berthynas rhwng ysgolion a cholegau, mae iaith yn allweddol ac mae parch cydradd yn hanfodol.
- Nododd Iestyn Davies (Dirprwy Is-ganghellor Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant) fod angen cydweithio y tu hwnt i AB ac AU, ac hefyd myfyrwyr, cyflogwyr, darparwyr hyfforddiant annibynnol, yn ogystal â chyngor ac arweiniad mewn ysgolion. Mae'n parhau i fod yn obeithiol o gydweithio i greu llwybrau, ac mae'n teimlo nad oes yr un lefel o densiwn rhwng y sectorau ag a fu o'r blaen. Mae angen rhoi sylw i ariannu cystadleuol rhwng ysgolion a cholegau ar lefel 16-19, a all fod budd i'r ddwy ochr o rannu adnoddau.
- Awgrymodd John Griffiths AS y dylai’r sgwrs a’r ddeialog barhau, gan nad yw materion yn mynd i gael eu datrys dros nos. Nododd y byddai'n dda cael trafodaeth arall rhyw chwe mis - Hefin i ddod yn ôl i'r Senedd yn y Flwyddyn Newydd, ac efallai wahodd Gweinidog.

## 5. Cau

- Dyddiad cyfarfod nesaf i'w gadarnhau